# Cenn@d

HYDREF 29 2025 — YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* — RHIF 244

## O'r byd a'r betws

## Y dewis

Yn Galatiaid 5, mae Paul yn nodi'r dewis sydd gan y darllenwyr, sef ceisio ffrwyth y cnawd neu ffrwyth yr Ysbryd. Mae'r dewis hwn i'w wneud gan bawb, a dyna hanes y ddynoliaeth bob dydd.

Dydd Iau, 23 Hydref, roedd trigolion etholaeth Caerffili yn cael cyfle i fwrw eu pleidlais mewn isetholiad yn dilyn marwolaeth annhymig Hefin David ym mis Awst. Nid ar dudalennau *Cenn@d* mae'r lle i drafod ymgeiswyr y pleidiau, ond bydd pob etholiad yn gyfle i'r etholwyr fynegi eu blaenoriaethau gwleidyddol. Mae'n rhyfedd sut y bydd y broses o ddewis Aelod Seneddol yn creu rhwygiadau dwfn ac atgas, yn arbennig pan fydd rhai'n barotach i ddangos casineb a hyrwyddo ofn a dichell, yn hytrach na hyrwyddo gweledigaeth, gwerthoedd a gobaith. Dyna, yn gymaint â dim, fu ein profiad wrth ganfasio yn isetholiad Caerffili y mis hwn. Onid oes angen wynebu trafodaeth onest am werthoedd a pholisïau, gan gadw golwg ar unoliaeth cymdogaeth, cenedl a dynoliaeth?

Am y tro cyntaf erioed, profais ddichell pobl yn fy erbyn, heb i mi ddweud nemor ddim ond crybwyll enw'r blaid roeddwn yn ei chynrychioli. Roeddwn yn cyflwyno enw'r ymgeisydd a roddodd hanner can mlynedd o wasanaeth cwbl anhunanol fel cynghorydd tref a sir, person a fu'n gyson yn gwrando ar blant yn darllen, yn coginio mewn caffi eglwys, yn gweithio mewn banc bwyd, ac yn cynnal clybiau ieuenctid dros y blynyddoedd. Dyma un oedd yn cael ei wawdio 'fel pob gwleidydd arall' yn 'debyg i foch sy'n gwthio'u safnau i'r cawg ar draul pobl eraill'. Clywais fy hun yn cyflwyno'r achos dros ddidwylledd y mwyafrif o wleidyddion, a hynny o bob plaid wleidyddol yng ngwledydd Prydain.



Lindsay Whittle – Aelod Senedd newydd Caerffili

Ai felly y bu hi erioed, neu o leiaf dros y ganrif ddiwethaf?

Yn yr un modd, bu'r frwydr dros – ac yn erbyn – cynlluniau'r Arlywydd Trump i greu llwyfan i drafod cynllun heddwch yn y Dwyrain Canol fel barcud yn hofran yn y gwynt. Aeth rhai elfennau o'r wasg i lefaru fel corwyntoedd yn gwawdio'r gwerthoedd sylfaenol, a thrin sefyllfa druenus Gaza fel pe byddent yn trin gêm rygbi. Aeth ieithwedd pobl i farnu, ac felly i gollfarnu, y difreintiedig a'r truenus, gan hyrwyddo'r pleidiau gwleidyddol roeddent yn digwydd bod yn lleisiau iddynt. Nid ydynt yn dangos cyfiawnder a thrugaredd, heb sôn am faddeuant a graslonrwydd. Cyfeirir yn Saesneg at yr angen i 'arogli'r coffi', ond mae angen i ni arogli'r elfennau hyllaf sydd mewn cymdeithas.

Pwnc a godai'n gyson ar riniog y tai yr ymwelais â hwy oedd sut i drin y rhai sy'n croesi ar gychod rwber i draethau de Lloegr. Croesawyd, yn barod a llawen, bobl o'r Dwyrain Pell, y *boat people,* 'nôl yn niwedd y 70au, hyd at bobl o Afghanistan ac Wcráin yn fwy diweddar, ond mae'r dicter cyfredol yn sylfaenol atgas. Cyfeiriwyd at unrhyw ddyn sy'n ceisio lloches drwy ffyrdd anghyfreithlon fel treisiwr a bygythiad i ferched. Lledodd y cyhuddiad at bobl nad oeddynt yn bobl groenwyn. Gwelwyd agweddau tebyg yn yr Almaen yn ystod y 1930au ac yn yr Unol Daleithiau nawr.

Beth yw'r ateb? Dychwelaf at y dewis a rannodd Paul i aelodau eglwys Galatia. Dyma'r dewis rhwng arfer ffrwyth y cnawd a ffrwyth yr Ysbryd. Prin fod cenhedloedd y gwledydd oedd dan oruchwyliaeth yr Ymerodraeth Rufeinig yn y ganrif gyntaf yn medru amgyffred beth oedd yn digwydd ar draws eu gwledydd eu hunain, heb sôn am beth oedd yn digwydd ar draws holl diriogaethau'r Ymerodraeth gyfan. Erbyn hyn mae modd rhannu'r casineb ar lwyfannau digidol, ar draws y byd cyfan, a hynny mewn eiliadau. Mae'r delweddau a'r anogaethau sy'n cael eu rhannu'n troi rhagfarn, yn bropaganda treisgar ac fel tân gwyllt mewn sied wair. Mae angen ymateb ar y cyd o gyfeiriad Cyngor Eglwysi'r Byd a'i holl elfennau, a hynny'n gyflym, i lefaru o blaid daioni, cymod a chyfiawnder, a hynny yn enw Iesu. Dylai'r gymuned Gristnogol, o'r Catholigion i'r Pentecostaliaid, ganu yr union anthem sy'n codi o Galatiaid 5, a rhannu gweledigaeth, gwerthoedd a gobaith ar y llwyfannau sydd ar gael i ni tu allan i furiau'r eglwys. Gall eglwysi lleol drydar y ffydd, ei chyhoeddi mewn llythyron yn ein papurau dyddiol a gohebu â'n cynrychiolwyr gwleidyddol, boed hynny yn lleol neu/ac yn genedlaethol. Gallwn sgwrsio'r ffydd gyda chymdogion a chyd-weithwyr, ymwrthod â thrais a hawlio fod 'pob mab i Ti yn frawd i mi, O Dduw'. Yn enw cymod, awn ati.

*Denzil I. John*

Myfyrdodau o Nauru: ffydd, cyfiawnder, a'r Moana **Tudalen 2**

Cofio Thomas Levi (1825–1916) **Tudalen 7**

Ffenest ar Dduw ... ffenest i'r byd **Tudalen 8**

# Myfyrdodau o Nauru: ffydd, cyfiawnder, a’r Moana




Yn ddiweddar, cymerais ran yn rhaglen Wyneb yn Wyneb Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang: ‘Cloddio’r Tir a Dyfnderoedd y Môr’ a gynhaliwyd yn Nauru, 3–7 Hydref 2025, gan ymuno â 25 o bobl ifanc o bob cwr o’r byd i archwilio ffydd, cyfiawnder, a’r amgylchedd. Rwy’n dod o Fadagascar, lle mae mwyngloddio’n dal i lunio’r tir a bywoliaeth pobl. Ar ôl byw ym Mhenrhys, yng Nghwm Rhondda, lle mae gwaddol y cloddio am lo yn dal i gael ei deimlo, roeddwn i eisiau gweld sut mae cenedl fach arall yn wynebu heriau tebyg a sut mae Cristnogion a’r Eglwys yn ymateb i’r difrod a achosir gan gloddio am adnoddau.

Ynys fach anhygoel o hardd yn y Môr Tawel yw Nauru, ond eto mae wedi’i chreithio’n ddwfn yn sgil dros ganrif o gloddio am ffosffad. Wrth gerdded ar draws pinaclau calchfaen mawr y gwastadedd sydd wedi’i gloddio, gallwn weld faint o’r tir oedd wedi’i golli a sut mae pobl yn parhau i fyw gyda’r golled honno. Yr un pryd, mae dadleuon ynghylch cloddio yn nyfnderoedd y môr yn codi cwestiynau newydd ac anodd am oroesi, stiwardiaeth, a chyfiawnder ar gyfer y dyfodol.

Ond roeddwn yn gallu gweld a thystio i wydnwch, gobaith, lletygarwch anhygoel, ac ymdeimlad cryf o gymuned, hyd yn oed ynghanol y creithiau hyn. Atgoffodd pobl Nauru ni mai creadigaeth Duw yw’r tir (ffawna/whenua) a’r cefnfor (Moana), ill dau’n gysegredig ac yn fyw, ac nad dim ond adnoddau i’w defnyddio ydynt.

Roedd ein dyddiau yno yn llawn dysgu, myfyrio, gweddïau, canu, anturiaethau, bwyd blasus, chwerthin, a rhannu profiadau. Fe fuon ni’n gwrando ar ieuenctid lleol, arweinwyr eglwysi, gwleidydd, a hyd yn oed gynrychiolydd o’r cwmni mwyngloddio, gan geisio deall gwahanol safbwyntiau. Drwy’r cyfan, roedden ni’n dychwelyd at alwad yr Ysgrythur i ofalu am y Ddaear (Genesis 2:15) a sefyll mewn undod â’r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan gamfanteisio a difrod amgylcheddol.

Fe wnaeth bod yn Nauru adnewyddu fy ymdeimlad ynghylch pa mor agos a dwfn y mae popeth ar ein planed wedi’i gydgysylltu mewn gwirionedd. Fel ym Madagascar, mae’r hyn sy’n digwydd yn y Môr Tawel yn aml yn cael ei yrru gan anghenion cenhedloedd cyfoethog a chorfforaethau sy’n bodoli er mwyn gwneud elw. Ond mae colli ecosystemau yno yn cyffwrdd â ni i gyd. Mae ein gweithredoedd wedi’u cysylltu ar draws cefnforoedd; mae i’n gofal neu ein hesgeulustod ganlyniadau byd-eang.

Fel Cristnogion, mae ein ffydd yn ein galw i edrych y tu hwnt i’n libart ein hunain. Yma yng Nghymru, mae ein tir a’n cymunedau yn dal i gario beichiau effaith cloddio dwys y gorffennol (glo, llechi, a mwy). Mae’r dewisiadau a wnawn heddiw ynglŷn ag ynni, ein defnydd o adnoddau, ein gweithredoedd a’n hagweddau tuag at y greadigaeth, yn ymestyn ymhell y tu hwnt i’n glannau a’n ffiniau ni. Rydym wedi ein galw i weithredu’n gyfiawn, i garu trugaredd, a rhodio’n ostyngedig gyda Duw (Micha 6:8), gan sefyll gyda’r rhai sy’n dioddef effaith difrod amgylcheddol ac yn talu’r pris amdano. Nid rhywbeth dewisol yw gofalu am y greadigaeth; mae’n gyfrifoldeb a rennir, yn fynegiant byw o gariad at Dduw a’n cymdogion ymhell ac agos.

*Miara Rabearisoa*
*Galluogwr Cenhadol*
*Henaduriaeth Mid Wales and Border, EBC*

# ‘All roads lead to Denbigh’ – Cymdeithasfa’r Hydref yng Nghapel Unedig y Fron

‘All roads lead to Denbigh’: dyna oedd geiriau Christopher Prew, ein llywydd, wrth iddo ddychwelyd i’r capel lle cafodd ei fagu i lywyddu ei gyfarfod llawn cyntaf o Sasiwn yr hydref yn y Gogledd am eleni, ac wrth edrych yn ôl dros gynnwys y dydd maen nhw’n gwbl addas.

Peth digon amrywiol yw Sasiwn. Cawsom sgwrs ddifyr gan Iwan Llewelyn Jones am Hugh Jones, Maesglasau, a chyfle i ganu ei emyn mawr – un o oreuon y Gymraeg, yn ôl O. M. Edwards, sef ‘O tyn / y gorchudd yn y mynydd hyn’. Rwy’n siŵr fod tirwedd a niwloedd ardal Dinas Mawddwy ar feddwl nifer ohonom wrth ei ganu, ond atgoffodd Iwan ni mai cyfeirio at Eseia 25, a’r weledigaeth ryfeddol o’r Arglwydd Dduw yn cyfarfod ei bobl ar fynydd Seion, oedd fwyaf blaenllaw ar feddwl yr emynydd. Gobeithio y cawn gyfle i glywed mwy am y dyn dawnus, cymhleth hwn a ddaeth yn y diwedd i weithio yng ngwasg Thomas Gee yr hynaf yn Ninbych ac a fu farw a’i gladdu yn Henllan ddwy ganrif yn ôl. Diolch o galon i Iwan am rannu ei ymchwil â ni.

Cafwyd adroddiad hefyd gan Nan Powell-Davies, a chanolbwyntiodd ar y broses ailstrwythuro sy’n digwydd o fewn y corff ar hyn o bryd. Dros y misoedd nesaf mae cyfle i henaduriaethau ac eglwysi drafod y cynigion sydd gerbron, a chynnig sylwadau, gwelliannau, ac adborth ar y ffordd ymlaen.

Pwysleisiodd Nan fod hon yn dasg anferth – tasg sydd rywsut fel bwyta eliffant! – a bod angen dyfalbarhau â’r gwaith hwn. Ond yn y pen draw rhaid i ni oll gofio mai diben yr aildrefnu yw ei gwneud hi’n haws i’r eglwys gyflawni ein pwrpas, trwy gymunedau ein gwlad. Ac onid dyna yw ein dymuniad ni i gyd – gweld yr eglwys yn cyflawni ei chenhadaeth?

Cafwyd adroddiadau gan Drysorydd y Sasiwn, y Pwyllgor Eiddo a’r Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas, gyda nifer o faterion perthnasol yn cael eu codi. Ond y peth pwysicaf am Sasiwn yw’r cyfle a gawn i addoli gyda’n gilydd, i drafod a chymdeithasu ac annog, gwrando ar straeon cadarnhaol a rhannu beichiau.

Wrth ddod at fwrdd y cymun, traddododd Huw Pritchard, un o’m rhagflaenwyr yma yn Ninbych, anerchiad ar Genesis 22, hanes Abraham a’i fab Isaac ar fryn Moreia. Atgoffodd ni fod byw fel dilynwyr Crist yn anorfod yn mynd i fod yn anodd: fel Abraham yn dringo’r mynydd, rhaid wrth ffydd yn y Duw sy’n aros yn ffyddlon i’w addewid. Pobl y ddau fryn ŷm ni, meddai Huw wrthym: bryn Moreia, a bryn Calfaria, ac wrth ddod at fwrdd y cymun cawsom ein hatgoffa o eiriau Nicander:

> Gyda’r saint anturiais nesu
> dan fy maich at allor Duw:
> Bwrdd i borthi’r tlawd, newynog,
> Bwrdd i nerthu’r egwan yw.

‘All roads lead to Denbigh’ oedd hi ar 14 Hydref. Ond gadawsom wedi ein calonogi a’n hannog i gerdded y ffordd o’n blaenau a’n golwg ar y Gwaredwr. Diolch i bawb fu wrthi’n paratoi, ac edrychwn mlaen at ein cyfarfod nesaf yn y gwanwyn.

*Andras Iago*
*Gofalaeth Bro Dinbych*

Hoffem ddiolch i Andras a’r tîm yn Ninbych am eu lletygarwch yn y Sasiwn, am eu trefniadau a’u croeso ardderchog, a hynny ar fyr rybudd. Cawsom gyflwyniad hynod o ddiddorol gan Andras a’r Dr Heledd Iago, ei wraig, a Sioned Roberts, myfyrwraig ar y rhaglen genhadol yng ngofalaeth Bro Dinbych. Anfonwyd dymuniadau da at Sarah Dafydd, gweithiwr ymestyn allan yn yr ofalaeth, a oedd i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth. Da deall oddi ar hynny i Cadog gael ei eni yn fuan wedyn, yn fab bach i Sarah a Gwion ac yn frawd i Buddug. Gweddïwn fendith arnynt i gyd fel teuluoedd ac fel gweithwyr yn yr ardal. (HP-D)


# Cynadleddau Paratoi Dydd Gweddi’r Byd


Fel y bydd llawer o ddarllenwyr yn gwybod, bob mis Mawrth cynhelir Dydd Gweddi’r Byd (gynt Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd) a phob blwyddyn mae gwlad wahanol yn gyfrifol am lunio’r gwasanaeth. Lluniwyd gwasanaeth 2025 gan ferched Ynysoedd Cook yn y Môr Tawel a gwasanaeth 2026 gan ferched Nigeria.

Ym mis Tachwedd cynhelir dwy gynhadledd i’n paratoi ar gyfer y diwrnod – un yng ngogledd Cymru a’r llall yn ne Cymru – ac mae croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb i fynychu. Fel arfer, rydym yn dilyn y gwasanaeth, yn cael blas ar yr astudiaeth Feiblaidd ac yn cael cyfle i weld adnoddau eraill.

Mewn sawl ardal mae eglwysi’n ymuno i drefnu’r gwasanaeth ar y Dydd Gweddi, sef dydd Gwener, 1 Mawrth, yn 2026, tra bydd eraill yn defnyddio’r gwasanaeth ar ddydd Sul fel y gall y gynulleidfa gyfan gymryd rhan. Os nad yw eich eglwys erioed wedi cymryd rhan ac yr hoffech wybod mwy, cysylltwch ag un o’r swyddogion a restrir isod.

Os ydych yn bwriadu mynychu un o’r cynadleddau i’n paratoi ac yn gallu casglu llyfrynnau’r gwasanaeth ar gyfer eich gwasanaeth ym mis Mawrth, plis rhowch wybod i Margaret; bydd hyn yn ein helpu i gadw costau postio i lawr.




Edrychwn ymlaen at eich gweld ym mis Tachwedd.

Dyma fanylion y cynadleddau:

Gogledd: Capel y Fron, Dinbych – Tachwedd 20fed, 10yb; trefnydd Dilys Davies

De: Capel Bryngwenith, Henllan, Castellnewydd Emlyn – Tachwedd 12fed, 11 yb; trefnydd Y Parch C arys Ann.

Margaret Morgan: margaretmaudmorgan@gmail.com
Eirian Roberts: eirian.roberts@ebcpcw.cymru
Sarah Morris: sarah.morris@ebcpcw.cymru

# Yr achos ymneilltuol yn Llanfaches a'i ddyfodol (1639 – )

Wrth deithio o Gaerdydd i dreulio penwythnos yng Nghas-gwent, es i ar hyd yr hen ffordd hyfryd o Gasnewydd i Gas-gwent ac aros am ennyd i dynnu llun o gapel Llanfaches, sydd dan ofal yr United Reformed Church ers tro byd bellach. Sylwais ar yr hysbysfwrdd fod oedfa Saesneg yno'r diwrnod canlynol. A phenderfynais mai braf fyddai ymuno â'r gynulleidfa yn Llanfaches bore Sul, 19 Hydref, eleni.

Fel nifer ohonoch, roeddwn yn nabod y Parch. Shem Morgan, fu'n fugail ar yr achos ymneilltuol yno am nifer o flynyddoedd. Cefais y fraint o arwain gwasanaeth yno 'nôl yn yr wythdegau, a threfnais daith seiclo o Gaerdydd i Lanfaches er budd elusen tua 1987 pan oedd y diweddar Barch. Ieuan Davies yn weinidog ar gapel Minny Street, Caerdydd.

Dwi'n cofio, gyda gwerthfawrogiad, fod Shem a'i gyd-aelodau wedi darparu lluniaeth blasus a derbyniol iawn ar gyfer tua hanner cant o seiclwyr o gapel Minny St, Caerdydd, yn cynnwys plant ysgol gynradd hyd at rai oedd yn agos at oed pensiwn!

Dwi'n siŵr fod nifer ohonoch yn cofio i ni ymweld â'r achos hynafol yn 1989 pan oedd yr eglwys yn dathlu 350 mlynedd ers sefydlu'r achos 'nôl yn nyddiau'r Parch. William Wroth (1570–1642). Y Prifathro Dr Tudur Jones oedd y cennad ar gyfer y dathlu a'r coffâd, a chafwyd peth o hanes yr achos gan Dr Geraint Tudur yn y pnawn.

Mae 'na rai lluniau o'r gweinidogion oedd yno yn llyfryn gwerthfawr y Parch. Shem H. Morgan, 'Tabernacle, United Reformed Church, Llanvaches' (1989 a 2011).

**Y dyfodol**
Dros goffi, ar ôl yr oedfa foreol ar Sul fy ymweliad, cefais ar ddeall y bydd yr oedfaon yn dirwyn i ben ar Sul, 7 Rhagfyr, eleni, gydag oedfa o garolau o ddewis y gynulleidfa a'u ffrindiau.

Mae'r penderfyniad gan y gynulleidfa fach i ddirwyn yr achos i ben wedi bod yn un anodd iawn a sensitif, wrth reswm.

Ers fy ymweliad â'r achos ymneilltuol hynafol hwn ar y bore Sul, dwi wedi ymdeimlo ag awydd eithaf dwfn i holi a oedd modd i ni ymweld â'r capel cyn eu bod yn cau'r drysau'n derfynol ddechrau Rhagfyr eleni. Mae'r prif arweinydd a'r wyth aelod sydd ar ôl yng nghapel y Taberncl, Llanfaches, yn fwy na pharod i'n croesawu.



Capel y Tabernacl, Yr Eglwys Newydd, cartref presennol Swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol

Dwi'n gobeithio y bydd nifer dda ohonoch yn ymdeimlo â'r un awydd a dyhead i ymweld â'r capel yn Llanfaches ar y cyfle olaf hwn, mwy na thebyg.

Dyma englyn a gyfansoddwyd gan y Parchedig Rhys Nicholas ar ôl mynychu'r encil yn 1989:

> Awel iach yn Llanfaches – a gafwyd
> I gofio am ernes
> William Wroth, a'i fflam o wres
> Y tân fu'n newid hanes.

Mae gwahoddiad brwd a chynnes i chwi ymweld â chapel y Tabernacl, Llanfaches, cyn i'r achos ddod i ben fore Sul, 7 Rhagfyr.

**Rhaglen ar gyfer dydd Sadwrn, 6 Rhagfyr**

| | |
|---|---|
| 10:30 | Ymgynnull yn y festri am de neu goffi |
| 11:15 | Darlith ar William Wroth a hanes dechrau'r achos yn 1639 |
| 1:00 | Bwffe yn y festri |
| 2:30 | Oedfa o ddiolchgarwch a choffâd |
| 3:30: | Y Fendith ac ymadael |

A fyddech mor garedig â rhoi gwybod i Gwilym Wyn Roberts, serenagwill@btinternet.com neu 07 968 463 737, os ydych am ymuno â ni, a hynny erbyn nos Sul, 23 Tachwedd, er mwyn i'r gwirfoddolwyr allu archebu'r bwffe ar eich cyfer. Edrychwn ymlaen at eich gweld, os bydd yn gyfleus.

*Gwilym Wyn Roberts*




Do, fe ddaeth yr amser yna o'r flwyddyn unwaith eto! Ein gobaith yw cael cymaint o ddyddiadau ar wefan plygain.org erbyn canol Tachwedd fan bellaf. Diolch i'r rhai sydd wedi cysylltu eisoes: gweler y manylion hynny isod.

Os ydych am i'ch plygain gael ei chynnwys, anfonwch eich manylion i'r cyfeiriad ebost hwn: plygain@gmail.com erbyn dydd Llun, 10 Tachwedd, os gwelwch yn dda.

Pob hwyl i bawb ar y gwaith trefnu a hefyd, wrth gwrs, ar y canu!

*Trefnwyr gwefan y Plygain*

**DYDDIADUR 2025–26**
Dyddiadau wedi eu cadarnhau hyd yma

**RHAGFYR 2025**

**11 Nos Iau**
– Aberystwyth, Eglwys y Santes Fair, 7.00

**18 Nos Iau**
– Penrhyn-coch, Eglwys Sant Ioan, 7.00

**28 Nos Sul**
– Cefnyblodwel, Capel, 7.00

**IONAWR 2026**

**4 Nos Sul**
– Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Eglwys St Dogfan, 7.00

**6 Nos Fawrth**
– Llwyndyrys, Capel

**21 Nos Fercher**
– Llanfair, Harlech, Eglwys y Santes Fair, 7.00

**26 Nos Lun**
– Lledrod, Ceredigion, Capel Rhydlwyd, 6.30

# ‘Caerdydd’

‘Caerdydd’ mewn dyfynodau, sylwch. Felly, nid Caerdydd y ddinas, neu’r brifddinas wir, ond ‘Caerdydd’ – swyddfa ganolog ein henwad ni, y Presbyteriaid.

Nid yw’n boblogaidd ym marn llawer o’n haelodau. Ac fel yr ‘hen Gaerdydd yna’ y cyfeirir ati, yn amlach na pheidio.

O glywed y cyfeiriad yma sawl tro’n ddiweddar, mi gefais ddigon a phenderfynu ei bod yn bryd dweud gair o’i phlaid ac enghreifftio sut oedd hi cyn y daeth y swyddfa a’r rheolaeth ganolog i fod neu i’w llawn dwf, beth bynnag.

Sut oedd hi cyn ei dyfod? Wel, gweinidog oedd fy nhad, felly dwi’n un o blant y mans ac yn cofio sut oedd hi pan oedd yr eglwysi lleol yn rhedeg y sioe. Y cyflog i ddechrau: pan gychwynnais i yn athro ysgol, er nad oedd y cyflog yn fawr bryd hynny roedd o’n fwy na chyflog fy nhad oedd yn weinidog ers deng mlynedd ar hugain o’m blaen.

Y tŷ. Di-rent, mae’n siŵr, a bod yn deg. Clamp o dŷ gydag wyth ystafell, ond dim bathrwm. Cariem y dŵr o ffynnon oedd heb fod ymhell, ar draws y ffordd fawr ac i lawr llwybr bychan. Pan ddaeth y dŵr – y ‘mains’ fel y gelwid o, roedd y brif beipen i’r pentref wedi ei chladdu yn y ffordd a âi heibio tŷ ni. Pellter bach i gysylltu’r tŷ felly, ac roedd hawl i wneud hynny. Roedd ein gobeithion a’n disgwyliadau ni’r plant yn fawr. A be gawson ni? Tap wrth y giât! Dylsai fy nhad fod wedi ‘sticio’i sodle i mewn’, ond wnaeth o ddim. A bu’n rhaid i mi a fy chwaer aros tan ddyddiau coleg i brofi moethusrwydd bath a dŵr yn y tŷ lojin neu’r hostel.

Ni chafodd fy nhad bensiwn chwaith. Roedd o’n weinidog cyn i ‘Gaerdydd’ setlo hynny, ac oni bai iddo ailbriodi (fe gollais fy mam pan oeddwn yn un ar bymtheg oed) – priodi gwraig weddw oedd yn berchen ar ei thŷ ei hun, byddai wedi gorfod dod i fyw aton ni neu deulu fy chwaer ar ei ymddeoliad, mae’n siŵr, gan nad oedd ganddo ddigon o gelc i brynu cwt mewn gardd, heb sôn am dŷ.

Ie, fel yna roedd hi cyn ‘Caerdydd’, a chlywais ferch i weinidog adnabyddus flynyddoedd yn ôl yn dweud ar y radio fod disgwyl iddyn nhw fel teulu fyw bywyd dosbarth canol ar gyflog dosbarth gweithiol, a chymryd bod cyflog y dosbarth gweithiol cyn ised â chyflog gweinidogion, ac rwy’n amau hynny. Roeddwn i’n ffrindiau mawr efo Gwilym Ceiriog (y Parchedig yn nes ymlaen); mab i chwarelwr oedd o ond roedd ganddo bob amser fwy o bres na fi pan oeddem yn blant ac yn ein harddegau.

Ie, byw bywyd y dosbarth canol. Doedd fiw i weinidog ymddangos mewn pwlpud a’i goler wen yn melynu ac wedi dechrau raflo. A wnâi dim y tro ond siwt a honno heb fod yn sgleinio! Roedd y saint yn edrych dan eu cuwch pe bai gwraig y gweinidog mor wyneb-galed â mynd allan i weithio hefyd, gan y collid trwy hynny i raddau helaeth ddau weithiwr am bris un!

A bod yn deg, roedd teuluoedd ‘unigol’ y capel yn garedig tu hwnt a chaem, yng Ngwyddelwern, ein cadw mewn cig am wythnosau yn ystod cyfnod lladd mochyn, heb sôn am wyau a menyn, cynnyrch amaeth, a chyfle i blannu tatws yng nghaeau rhai o’r ffermydd. Do, profasom garedigrwydd mawr y ffordd honno, ond gwell onidê fyddai cyflog teg parhaol na chardod ysbeidiol. Mae’n siŵr imi unwaith leisio hyn oll mewn dosbarth Mudiad Addysg y Gweithwyr, ac fe ofynnwyd i mi sut mod i’n dal i fynd i’r capel? Rhaid imi



gyfadde ei fod yn gwestiwn y byddwn yn ei ofyn i mi fy hun yn aml.


Ond yna daeth tro ar fyd, a datblygwyd y syniad o reolaeth ganolog. Ac yn y man, isafswm cyflog (cwbwl hanfodol) a chronfa bensiwn hefyd, ac mewn rhai achosion gostau teithio. Cofiaf fater costau teithio i weinidog yn cael ei godi mewn cyfarfod bugeiliol unwaith, ac un aelod – ffarmwr – yn dadlau yn erbyn gan ddweud nad oedd o’n cael costau teithio am fynd â gwartheg i’r farchnad. Roedd hi’n anodd iawn rhesymu yn erbyn y math yna o ddadl, rhaid dweud.

Wn i ddim sut y mae hi mewn enwadau eraill, ond clywais weinidog gydag enwad arall rai blynyddoedd yn ôl bellach yn dweud wrth weinidog o’n henwad ni wedi dyfodiad ‘Caerdydd’ – ‘Diolcha dy fod yn perthyn i’r Presbyteriaid!’ Daeth y syniad o dalu hyn a hyn o gostau yn lleol i fod hefyd, ar wahân i’r gydnabyddiaeth o Gaerdydd, a chyda’r prinder mawr o weinidogion fe roddwyd i’r rhai sydd ar ôl ryw gymaint o rym bargeinio. Peth diarth iawn i weinidogion fy nghenhedlaeth i!

Os oes plant y mans yn bod heddiw yn ein henwad ni, gobeithio eu bod nhw a’u rhieni yn diolch am eu sefyllfa i’r ‘hen Gaerdydd yna’.


*Elfyn Pritchard*



## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




**Ymson Sara**

Peth rhyfedd yw enw; i rai, mae'n rhywbeth i ymfalchïo ynddo, ond roedd f'enw i fel pelen ddur am fy nghoes. Gwawd; gwyddai pawb mai dyna ystyr f'enw ac mi wyddwn i'n iawn beth oedd dirmyg.

Cofiaf i Abram ddweud un noson ei fod yn cael ei alw gan Dduw i adael, i ymddiried ynddo a mynd! Allai 'run o'r ddau ohonom gredu'r peth. Oedd raid inni fentro i rywle lle roedd swyn y sêr a sychder y swnd yn newydd? Wrth gwrs, fel gwraig dda a ffyddlon, dilyn oedd fy unig ddewis.

Buom yn crwydro am flynyddoedd. Gwyliais Abram yn adeiladu allorau rif y gwlith gan godi ei ben i'r ffurfafen i siarad â'r Anweledig. A phob tro, byddwn yn chwerthin yn ddistaw. Byddwn yn edrych ar ôl y pebyll a'r gweision, yr anifeiliaid, a'r aros. Ac yn yr aros, a'r gwagle oddi mewn imi, hiraethwn am y freuddwyd o fod yn fam.

Yna un diwrnod, dywedodd Abram fod Duw am roi inni dylwyth di-rif fel y sêr! Edrychais i fyny a chwerthin yn uchel, a'r chwerwder yn llosgi fy ngwddw. Dyna greulon – addo rhywbeth amhosibl! Cawsom enwau newydd hefyd: Abraham, sef 'tad i nifer', a Sara, sef 'tywysoges'. O'r munud hwnnw roedd fy ngŵr yn llawn ffydd, ond roedd fy ffydd i'n stribedi mân fel llumanau'n hyrddio yn y gwynt.

Ceisiais reoli pethau a chael Hagar i genhedlu gyda fy ngŵr yn fy lle, ond fedrwn i ddim dioddef annhegwch y peth – ei llwyddiant hi a'm methiant innau. Gyrrais hi i'r anialwch, ond edrychodd Duw arni ac addo iddi ei chenedl ei hun. Anghofiodd fy Nuw amdana i.

Wedi amser maith, a minnau'n teimlo 'ngwallt yn teneuo a'm corff yn sychu, daeth tri ymwelydd atom ac addo plentyn inni. Chwarddais eto. Pwy fyddai'n dewis Abraham, ac yntau'n gant oed, i fod yn dad? A phwy a gredai y gallwn i feichiogi? Ac ar ben hynny, os oeddwn i wedi deall yn iawn, fe fyddwn hefyd yn cael pleser unwaith eto? Roeddwn i'n methu credu hynny!

Er mai chwerthin yn dawel imi fy hun wnes i, daeth y cwestiwn: 'Pam mae Sara'n chwerthin?' Ac yna sylweddolais nad dieithryn oedd yn siarad drwy'r tri ymwelydd. Dechreuais grynu a dweud, 'Wnes i ddim chwerthin.' Ond roedd Duw wedi deall fy meddyliau a sylweddolais nad oedd dim yn anweledig iddo.

A do, teimlais y symud y tu mewn imi: y babi'n tyfu, ac ymhen y flwyddyn ro'n i'n fam. Ro'n i wedi chwerthin sawl gwaith ar hyd y daith – chwerthin chwerw, chwerthin yn groch o ddychan, a nawr y chwerthin gorau'n llawn llawenydd. Cawsom fab a'i alw'n Isaac, sef 'fe sy'n chwerthin'. Wrth ei gofleidio yn fy nghôl, teimlais fod Duw wedi gwenu arna i.

Aeth y blynyddoedd heibio. Gwelais allorau newydd yn codi fesul un ac addunedau'n disgyn arnom o'r ffurfafen. Dysgais yn araf pa mor bwysig oedd ymddiried yn yr Un sy'n gwneud yr amhosibl yn bosibl. Gwn erbyn hyn mai peth sisman ar adegau yw ffydd, yn union fel magwyryn tân yng ngwynt y nos. Serch hynny, nid yw Duw yn newid.

Pe cawn siarad â mi fy hun yn ifanc, fe ddywedwn wrth Sarai am aros yn amyneddgar. Nid jôc yw'r addewid a chei di mo d'anwybyddu gan Dduw. Gall y chwerthiniad ofnus droi'n chwerthiniad o orfoledd, dim ond iti ymddiried a dal i obeithio. A phe bawn i'n siarad gyda fy Nuw, byddwn yn diolch iddo am droi fy ngwawd yn fendith, a throi f'anghrediniaeth yn gân o fawl.

**Holi**

- Pe byddai Duw'n dewis dau enw gwahanol i chi – un yn eich gorffennol ac un i'ch dyfodol, beth fyddai'r enwau hynny a pham?
- Oes unrhyw beth oedd yn cael ei ystyried yn amhosibl gennych wedi digwydd? Ydych chi'n teimlo bod llaw Duw ar waith yn eich bywyd mewn rhyw ffordd?
- Ydych chi'n credu, fel y gwnaeth Duw gyda Sara, y gall Ef ein helpu i ddileu rhywbeth ynom sy'n ein tynnu i lawr, a phwysleisio ein rhinweddau a'n potensial?
- Pe byddech yn siarad â chi eich hun yn ifanc, beth fyddai eich neges? A beth hoffech chi ddiolch i Dduw amdano heddiw?

**Gweddi**

Er mai peth anodd i'w amgyffred ydyw, ry'n ni ddiolchgar dy fod yn gweld ein meddyliau ac yn ein deall yn gyfan gwbl. Os oes rhywbeth ynom y gallem ei newid, rho inni'r awyddfryd i wneud hynny mewn ymddiriedaeth. Gwna ni'n ddewr i newid ein ffyrdd a chanolbwyntio ar y cadarnhaol, gan roi heibio ein harferion negyddol. Rho inni galon dda, meddwl glân ac enaid sy'n llamu â gobaith. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 2 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Iwan Llewelyn Jones

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 2 Tachwedd, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Delyth Wilson, Abergorlech

BBC radio cymru

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 2 Tachwedd – Y Testament Newydd**
Bydd Nia Roberts yn ymweld â Llanbedr Pont Steffan i ddathlu hanner canrif ers cyhoeddi trosiad cyfoes o'r Testament Newydd, yng nghwmni'r Athro Densil Morgan a Sian Wyn Rees o Gymdeithas y Beibl. Cawn ddetholiad o hoff adnodau'r Cymry a mwynhau gwledd o ganu mawl o addoldai ledled Cymru.

# Cofio Thomas Levi (1825–1916)

Anodd credu, efallai, ond cyrhaeddodd y cylchgrawn *Trysorfa y Plant* gylchrediad o 44,000 bob mis erbyn 1881! Fe'i cychwynnwyd a'i olygu rhwng 1862 a 1911 gan Thomas Levi, a gwnaeth y cylchgrawn gyfraniad enfawr i fywyd Cymru. Y Methodistiaid Calfinaidd oedd yn cyhoeddi'r cylchgrawn ond roedd yn boblogaidd gyda'r holl enwadau anghydffurfiol. Fe'i darllenid ledled y byd!

Thomas Levi, drwy *Trysorfa y Plant*, fu'n bennaf cyfrifol hefyd am sicrhau cofgolofnau i Daniel Rowland yn Llangeitho, Thomas Charles yn y Bala, a Williams Pantycelyn yn Llanfair-ar-y-bryn. Ei anrheg e yw'r pulpud sydd yng Nghapel Coffa Pantycelyn yn Llanymddyfri.

Rydyn ni'n dathlu deucan mlynedd geni Thomas Levi'r mis hwn. Fe'i ganed ar 12 Hydref 1825 ger Ystradgynlais i deulu tlawd ac o dras Iddewig. Chafodd e fawr o ysgol, ac yn wyth oed roedd yn gweithio yn y gwaith haearn lleol. Drwy gyfrwng dosbarth nos a chapel Cwm-gïedd a chyda chefnogaeth ei fam llwyddodd i'w ddiwyllio'i hunan a thyfu'n ysgolhaig o fri. Bu'n weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd o tua 1855 yn Ystradgynlais a Threforys, ac yna am chwarter canrif yng nghapel y Tabernacl, Aberystwyth, capel sydd wedi diflannu erbyn hyn.


Yn awdur toreithiog, ysgrifennodd lu o lyfrau ar bynciau crefyddol a hanesyddol, a chyfieithodd nifer helaeth o lyfrau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Cynorthwyodd Joseph Parry gyda geiriau 'Cantata'r Adar' a 'Cantata Joseph'. Cyfansoddodd lawer o emynau hefyd ac mae un ohonynt yn *Caneuon Ffydd* (rhif 553). Yn *Emynau Ffydd 2* mae Wayne Hughes yn ei ddisgrifio fel emyn hwyliog a hyderus sy'n gorfoleddu fod gennym newyddion da i'w cyhoeddi – 'fod Iesu eto'n fyw'.

Dyma'r pennill cyntaf:

Yr Iesu atgyfododd
  yn fore'r trydydd dydd;
'n ôl talu'n llwyr ein dyled
  y Meichiau ddaeth yn rhydd:
cyhoedder heddiw'r newydd
  i bob creadur byw,
er marw ar Galfaria
  fod Iesu eto'n fyw.

Emyn arall poblogaidd yn ei gyfnod o'i eiddo oedd 'Rwyf finnau'n filwr bychan'. Ond, yn ddiamau, ei gyfraniad llenyddol pennaf oedd sefydlu *Trysorfa y Plant*.

Bu'n briod ddwywaith. Mab iddo ef a'i ail wraig oedd Thomas Arthur Levi (1874–1954). Ei gamp fawr yntau, fel y dywed *Y Bywgraffiadur Cymreig*, oedd 'sefydlu Adran y Gyfraith yn Aberystwyth, a chodi golygon y miloedd o efrydwyr o bob rhan o Gymru a gwledydd eraill a ddaeth i Aberystwyth, nes bod yr Adran hon mor uchel ei pharch yn y byd academig ag unrhyw adran arall yn y Brifysgol'. Ni chyhoeddodd lawer, ond ymhlith ei gyhoeddiadau y mae *Casgliad o Ganeuon Cymu* (1896) a gychwynnwyd gan ei dad.



Bu farw Thomas Levi ar 16 Mehefin 1916 yn 90 oed.

Beth am orffen drwy ddyfynnu emyn arall o'i eiddo, sef 'Oleuni Mwyn', cyfieithiad o 'Lead, kindly Light' gan John H. Newman a genir ar y dôn Sandon.

Dywed *Cydymaith i Caneuon Ffydd* fod yr emyn yn sôn am gael 'arweiniad o dywyllwch i oleuni' a'i bod yn debygol mai salwch a phryderon Newman a achosodd iddo'i gyfansoddi. Fersiwn E. Keri Evans, un o gyn-weinidogion y Priordy, sydd yn *Caneuon Ffydd* – y cyfieithiad gorau yn ôl Pwyllgor y gyfrol honno. Eraill sydd wedi cyfieithu'r emyn i'r Gymraeg yw Elfed a John Morris-Jones. Dyma ddyfynnu cyfieithiad Thomas Levi yn llawn y tro hwn, er clod iddo:


Oleuni mwyn, trwy dew gysgodau'r nef,
  O! arwain fi;
Mae'r nos yn ddu, a minnau'n mhell o dref,
  O! arwain fi;
Cyfeiria'm traed, ni cheisiaf weld ymhell,
I mi, mae goleu ar fy ngham yn well.

Nid oeddwn gynt â'm gweddi am Dy Wawr
  I f'arwain i;
Chwenychwn gael a gweld fy ffordd, ond 'nawr
  O! arwain fi;
Dewiswn goegwych ddydd; er ofnau lu,
Balch oedd fy mryd; na chofia'r amser fu.

Dy rasol nerth, a'm daliodd hyd yn hyn,
  Fe'm harwain i
Dros greigiau serth, dros arw bant a bryn,
  A'r nos a ffy;
Wynebau hoff, a gollais ennyd awr,
A wenant arnaf gyda'r nefol wawr.

*Alun Charles*
(O bapur Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin, Hydref 2025)

# Ffenest ar Dduw … ffenest i'r byd




Dros y canrifoedd, mae artistiaid wedi portreadu digwyddiadau dioddefaint Crist mewn amryw ffyrdd, gyda rhai yn dewis canolbwyntio ar y swper olaf, eraill ar ing Gethsemane, y cipio, yr holi neu'r condemnio, eraill eto ar y fflangellu, yr ymwisgo a'r coroni sarhaus, neu'r daith drymlwythog at Galfaria. Ond croeshoeliad Crist a'i farwolaeth achubol sy'n derbyn y prif sylw, y weithred sy'n ffolineb yng ngolwg rhai ond i'r rhai "sydd ar lwybr iachawdwriaeth, gallu Duw ydyw" (1 Corinthiaid 1:18).

Mae'r sioe-un-actor *A Window from Wales* – sydd ar daith drwy Gymru ar hyn o bryd – yn canolbwyntio ar un portread artistig penodol, a hynny o waith John Petts (1914–1991), y crefftwr cywrain o Lansteffan, Sir Gâr. Cyd-destun dehongliad Petts o ddioddefaint Crist oedd yr ymosodiad enbyd ar Eglwys y Bedyddwyr 16th Street yn Birmingham, Alabama, ar 15 Medi 1963, pan fu farw pedair merch ifanc: Addie Mae Collins (14 oed), Carole Robertson (14), Cynthia Wesley (14) a Denise McNair (11). Aelodau o'r Ku Klux Klan oedd yn gyfrifol am osod 19 ffon o ddynameit dan risiau dwyreiniol yr addoldy, i'w ffrwydro tra bod y merched yn paratoi i wasanaethu fel tywysyddion yn ystod gwasanaeth ieuenctid arbennig.

Yn ogystal â'r pedair, dinistriwyd holl ffenestri lliw yr eglwys, heblaw un yn dangos Iesu gyda'r plant o'i gwmpas (tybed ai rhagluniaeth ddwyfol yn wyneb creulondeb dynol oedd y goroesi penodol hwn?). Serch hynny, ni fynegodd yr ymosodwyr unrhyw ymdeimlad o ddifaru nac edifeirwch: casineb cignoeth tuag at bobl groenddu oedd eu cymhelliad. Gellid ystyried eu gweithredoedd dieflig ochr yn ochr â brwydr galed dros hawliau sifil yr adeg honno, a gwaith rhai fel Martin Luther King, a lofruddiwyd yn Memphis llai na phum mlynedd yn ddiweddarach (4 Ebrill 1968).

Ledled y byd mynegodd llawer arswyd wrth glywed am y fath anfadwaith yn Alabama. Yn eu plith yr oedd John Petts: "Naturally as a father I was horrified by the death of the children. As a craftsman … I was horrified at the smashing of all those windows, and I thought to myself: my word, what can we do about this?" Penderfynodd droi ei ddicter yn harddwch a rhoi ei greadigrwydd ar waith drwy greu ffenest drawiadol a ariannwyd drwy gyfraniadau darllenwyr y *Western Mail* fel rhodd pobl Cymru wrth atgyweirio'r eglwys yn dilyn y bomio. Gosodwyd y ffenest yn ei lle cyn i'r eglwys ailagor yn 1965 ac mae amryw ddigwyddiadau wedi nodi'r 60 mlynedd ers hynny, gan cynnwys ymweliad gan bobl o Gymru yn gynt eleni, ynghyd â'r sioe deithiol.

Gellir edmygu gwaith Petts ar-lein (er enghraifft, yma) a gweld Crist croenddu wedi ei amgylchu â lliwiau glas llachar, ac enfys amryliw uwch ei ben yn cynrychioli cyfamod digyfnewid Duw â'i bobl o bob man a phob cyflwr. Ai croeshoeliad yw hwn? Yn sicr, nid Crist diymadferth, dolurus a llipa sydd yma ond ffigwr cryf, egnïol sydd eisoes yn mynegi pŵer dwyfol yr atgyfodiad. Dyma Grist sydd wedi profi marwolaeth – fel Addie, Carole, Cynthia a Denise, a llu aneirif o bobl debyg – ond sy'n mynnu nad hynny mo'r diwedd. Mae'n ymddangos bod un llaw yn ymwrthod â grym andwyol drygioni, tra bo'r llall yn croesawu'n dyner ddioddefwyr pob oes. Wrth geisio gwneud hyn heddiw yn ei enw ef, tybed a allwn ni wireddu'r arysgrif a welir yn glir ar waelod y ffenest: "… i mi y gwnaethoch" (Mathew 25:40)?

*Ainsley Grithiths*

(Gyda'n diolch i wefan Cristnogaeth 21)

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu Cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau Swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
Neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau Swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru